# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**BWRDD PENSIWN**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD LLUN, 4YDD EBRILL, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 25 Mawrth 2022)

**BWRDD PENSIWN**

**AELODAETH**

**CYNRYCHIOLWYR CYFLOGWR**

Huw Trainor (Heddlu Gogledd Cymru)

Cyng Aled Lloyd Evans (Cyngor Gwynedd)

Sioned Parry (Cyngor Bwrdeistrefol Conwy)

**CYNRYCHIOLWYR AELODAU**

Hywel Eifion Jones (wedi ymddeol – Cyngor Môn gynt)

Osian Richards (Cyngor Gwynedd)

Sharon Warnes (wedi ymddeol - Cyngor Gwynedd gynt

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 5 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Bwrdd hwn a gynhaliwyd 7fed o Fawrth 2022 fel rhai cywir

## 5. ADRODDIAD DRAFFT CADEIRYDD Y BWRDD PENSIWN AR GYFER ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GRONFA 11 - 14

I ystyried yr adroddiad drafft

## 6. POLISI CYNRYCHIOLAETH 15 - 21

Ystyried yr adroddiad ynghyd a derbyn adborth gan y Bwrdd ar y Polisi Cynrychiolaeth newydd

## 7. RHAGLEN WAITH DIWYGIEDIG 2022/23 22 - 23

I ystyried y rhaglen waith ac awgrymu eitemau ychwanegol neu newidiadau.

## BWRDD PENSIWN 07-03-2022

**Yn bresennol**:

Cynrychiolwyr Cyflogwr: Cyng. Aled Evans (Cadeirydd) a Sioned Parry

Cynrychiolwyr Aelodau: H. Eifion Jones, Osian Richards a Sharon Warnes

**Swyddogion**: Dafydd Edwards (Cyfarwyddwr y Gronfa Bensiwn), Delyth Jones Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd**; Cynghorydd Peredur Jenkins (Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Huw Trainor (Cynrychiolydd Cyflogwr)

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

### 3. MATERION BRYS

Amlygwyd yn sgil sefyllfa Wcráin bod nifer o ymholiadau wedi eu derbyn yn ceisio gwybodaeth am gysylltiadau'r Gronfa gyda Rwsia. Nodwyd bod y datganiad canlynol wedi ei ryddhau gan Partneriaeth Pensiwn Cymru ar ran yr 8 cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) yng Nghymru. Ategwyd bod Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi cyfrannu at y datganiad ac yn cefnogi safbwynt Partneriaeth Pensiwn Cymru, sy'n egluro ein sefyllfa:

***Mae'r sefyllfa yn Wcráin yn peri tristwch mawr i ni ac rydym yn meddwl am bobl Wcráin.***

***Mae cyfanswm ein cysylltiad â Buddsoddiadau Rwsiaidd yn fach iawn ac yn llai nag 1%. Er hynny, yng ngoleuni'r digwyddiadau ofnadwy yr ydym wedi'u gweld a'r sancsiynau economaidd a osodwyd yn rhyngwladol, rydym wedi penderfynu'n gyfunol y dylid dadfuddsoddi o'r daliannau hyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.***

***O ystyried yr amgylchiadau, nid ydym yn credu bod ymwneud â'r cwmnïau hyn yn opsiwn posibl.***

### 4. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 6ed Rhagfyr 2021 fel rhai cywir.

Llongyfarchwyd Osian Richards ar ei benodiad fel cynrychiolydd aelodau ar gydbwyllgor Llywodraethu, Partneriaeth Pensiwn Cymru. Nodwyd y byddai'r penodiad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor.

.

**5. COFNODION PWYLLGOR PENSIYNAU**

Cyflwynwyd er gwybodaeth gofnodion Pwyllgor Pensiynau a gynhaliwyd 17 Ionawr 2022

**6. STRATEGAETH GWEINYDDU PENSIYNAU**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn ymateb i ofynion Adolygiad Llywodraethu Da i bob awdurdod gweinyddu gynhyrchu a chyhoeddi strategaeth weinyddol sydd yn hygyrch ac yn cyflawni gofynion y Rheoliadau CPLlL.

Eglurwyd, fel rhan o baratoi ar gyfer y prosiect llywodraethu da, rhannwyd copi drafft o'r strategaeth gyda Hymans Robertson er mwyn derbyn adborth. Cadarnhawyd bod y Strategaeth Weinyddu yn cyffwrdd â'r meysydd priodol ac roeddynt o'r farn ei bod yn bodloni'r holl ofynion cyfredol a'r gofynion ychwanegol hynny sy'n deillio o'r adolygiad Llywodraethu Da.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod cynnwys y ddogfen yn daclus
- Ffurf tablau swyddogaeth / tasg a targed perfformiad yn glir a manwl iawn

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag ymgynghori gyda chyflogwyr, amlygwyd, yn dilyn barn y Bwrdd y byddai'r strategaeth yn cael ei rhannu gyda'r cyflogwyr am sylwadau cyn i'r Pwyllgor Pensiynau ei chymeradwyo. Nodwyd bod bwriad gweithredu'r strategaeth o'r 1af o Ebrill 2022 ac nid y 1af o Ionawr 2022 fel y nodwyd yn yr adroddiad. Ategwyd y byddai'r strategaeth yn cael ei hadolygu a'i diweddaru yn ôl yr angen i adlewyrchu newidiadau yn rheoliadau'r cynllun ac yn arferion gwaith y Gronfa.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn ag amserlen monitro gweithrediad y strategaeth, ystyriwyd mai materion allweddol yn unig fyddai angen eu monitro gan awgrymu gwneud hynny bob 6 mis (neu fel mater brys os bydd angen amlygu pryderon). Awgrymwyd cynnal adolygiad blynyddol o'r brif ddogfen a'i chyflwyno i'r Bwrdd am sylwadau.

Mewn ymateb i sylw bod rhai cronfeydd yn gosod dirwy i gyflogwyr am ddiffyg ymateb, nodwyd mai bwriad yr Uned Gweinyddu oedd cydweithio ac annog cydymffurfio a pheidio gosod dirywion.

Mewn ymateb i awgrym rhoi uchafswm o 10 diwrnod gwaith i ymateb i geisiadau gwybodaeth / cwblhau tasgau fel dangosydd perfformiad allweddol i'r uned gweinyddu, nodwyd bod hyn yn dderbyniol.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

**7. CYLLIDEB 2022-23 PENSIYNAU A RHEOLAETH TRYSORLYS**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor i gyllideb ar gyfer yr Uned Gweinyddu Pensiynau a'r Uned Buddsoddi ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022–23

Adroddwyd bod y gyllideb wedi ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Pensiynau 17 Ionawr 2022. Eglurwyd bod cyllideb 2022/23 yn cynnwys addasiadau i strwythur staff yr Uned Gweinyddu Pensiynau mewn ymateb i gymhlethdod cynyddol y cynllun, yr her o dderbyn data cywir ac amserol a phrosiect McCloud. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Creu 4 swydd newydd
  Swyddog Pensiynau (i gefnogi gwaith AVCs) a 3 Cymhorthydd Pensiynau (cytundeb 2 flynedd ar gyfer prosiect McCloud gyda phosibilrwydd o estyniad os bydd y gwaith yn parhau heibio 2 flynedd)
- Cynyddu cyflog 6 Cymhorthydd Pensiynau o GS3 i GS4

Nodwyd nad oedd y gyllideb yn cynnwys ffioedd Rheolwyr Buddsoddi nac Ymgynghorwyr, gan ei fod yn wariant newidiol. Er hynny, nodwyd y byddai'r gwariant yn cael ei adrodd yn llawn o fewn y cyfrifon terfynol ac Adroddiad Blynyddol y Gronfa.

Diolchwyd am y wybodaeth

Nododd Mr Eifion Jones, oedd yn bresennol ym mhwyllgor Pensiynau 17-01-22 fel sylwedydd, fod y Pwyllgor wedi ystyried costau ychwanegol i strwythur yr Uned Weinyddol yn fanwl a bod y penderfyniad o gymeradwyo'r gwariant wedi bod yn rhesymol a theg.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chynyddu cyflog y cymhorthyddion pensiynau, cadarnhawyd bod y swyddi wedi cael eu harfarnu yn unol a gofynion proses hunan arfarnu swyddi y Cyngor gan y Gwasanaeth Cefnogaeth Gorfforaethol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad**

**8. ADOLYGU AMCANION I YMGYNGHORWYR BUDDSODDI**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar y cynnydd yn erbyn yr amcanion cyfredol ynghyd a'r amcanion i'r dyfodol. Adroddwyd, yn dilyn adolygiad o'r marchnadoedd ymgynghori buddsoddi a rheoli ymddiriedol bu i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd nodi'r angen i Ymddiriedolwyr Cronfeydd Pensiwn osod amcanion i'w ymgynghorwyr buddsoddi gan nodi yn glir yr hyn ddisgwylir ganddynt.

Cyfeiriwyd at yr amcanion cyfredol ynghyd a'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion hynny yn ystod 2021. Tynnwyd sylw at amcan newydd a ychwanegwyd ar gyfer 2022 mewn ymateb i gynnydd mewn diddordeb byd-eang yn y maes - Datblygu dealltwriaeth y Pwyllgor am risg hinsawdd a Meini Prawf Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethiant (ESG - Environmental, Social, and Governance (ESG) Criteria). Nod yr amcan yw sicrhau bod yr ymgynghorwyr buddsoddi yn adeiladu dealltwriaeth y Pwyllgor ar ystyriaethau ESG a risg hinsawdd, gan gefnogi gweithredu gofynion llywodraethu'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd (Task Force on Climate-related Financial Disclosures - TCFD) a helpu'r Pwyllgor i ddeall a rheoli risgiau yn gysylltiedig â'r hinsawdd o fewn y strategaeth.

Nodwyd bod y datganiad cydymffurfio wedi ei arwyddo gan Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau erbyn y dyddiad cau gofynnol o 7fed o Ionawr 2022.

Adroddwyd bod Hymans yn cyflawni gwaith da, yn darparu adroddiadau chwarterol, adroddiadau cynhwysfawr ar gyfer y paneli buddsoddi, yn cynnig cyngor ymarferol, ymatebion a gohebiaeth amserol ac yn perfformio yn unol â'r amcanion. Nodwyd bod y drefn yn sicrhau bod y bartneriaeth rhwng Hymans a'r Gronfa yn un dryloyw.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â sut mae cronfeydd ESG yn perfformio o gymharu ag eraill (o ystyried bod swm sylweddol o arian yn cael ei fuddsoddi yma ac efallai yn arwain at sefyllfa o orbrisio), nodwyd y byddai modd gwneud cais i Hymans am gyngor ar hyn.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

## 9. POLISI SGILIAU A GWYBODAETH A CHYNLLUN HYFFORDDIANT 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn ymateb i argymhellion Adolygiad Llywodraethu Da i awdurdodau sicrhau bod gan swyddogion y Gronfa, yn ogystal ag aelodau Pwyllgor Pensiynau lefel digonol o wybodaeth i allu cyflawni eu rolau priodol yn effeithiol. Nodwyd, fel rhan o baratoi'r polisi newydd, rhannwyd copi drafft o'r polisi gyda Hymans Robertson er mwyn derbyn adborth a dymunwyd sylwadau'r Bwrdd cyn ei gyflwyno am gymeradwyaeth i'r Pwyllgor Pensiynau 17 Mawrth 2022.

Cyfeiriwyd hefyd at y Cynllun Hyfforddiant sydd wedi ei lunio ar gyfer 2022/23 ac at bwysigrwydd cael proses anwytho yn ei le ar gyfer newidiadau posib i aelodaeth Pwyllgor a Bwrdd Pensiwn o ganlyniad i etholiad Mai 2022. Tynnwyd sylw at y cofnod hyfforddiant gan ofyn i'r Aelodau sicrhau eu bod yn cofnodi presenoldeb i sesiynau hyfforddiant rhithiol yr oeddynt yn mynychu, gyda'r Rheolwr Buddsoddi.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:
- Ymddengys bod pwysau sylweddol ar hyfforddiant technegol ond beth am ystyried meysydd / agweddau eraill e.e, moesoldeb a diogelu data - a ddylid cyfeirio at hyn yn y ddogfen?
- Angen amlinellu'r sgiliau sylfaenol sydd angen eu cwblhau gan amlygu pryd? a sut?
- Ystyried creu matrics hyfforddiant
- Pwysleisio'r angen i bawb gymryd mantais o'r hyfforddiant sydd yn cael ei gynnig gan Partneriaeth Pensiwn Cymru
- Cais i dderbyn dyddiadau hyfforddiant ddigon ymlaen llaw

Mewn ymateb i sylw am y sgiliau sylfaenol, amlygwyd bod cyfeiriad at y cwrs Hanfodion CPLlL o dan y pennawd Proses Anwytho yn y polisi, ond bod modd amlygu fod angen cwblhau y cwrs cyn bydd aelodau yn pleidleisio.

## 10. POLISI BUDDSODDI CYFRIFOL

Cyflwynwyd Polisi (drafft) Buddsoddi Cyfrifol i'r Bwrdd Pensiwn ei drafod a chynnig sylwadau cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Pensiynau ei gymeradwyo'n ffurfiol ar y 17 o Fawrth 2022. Nodwyd, fel rhan o baratoi'r polisi bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda Hymans Robertson.

Adroddwyd bod y Gronfa yn cydnabod y gall materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu corfforaethol fod yn risg ariannol i'r rhanddeiliaid a gall ddylanwadu ar enillion ac enw da hirdymor y Gronfa. Yn ogystal, nodwyd bod y Gronfa wedi rhyddhau dau ddatganiad buddsoddi cyfrifol yn Ebrill a Gorffennaf 2021 ac erbyn hyn wedi ffurfioli'r credoau o fewn y polisi.

Cyfeiriwyd at y ffaith bod y Gronfa yn bwriadu ymrwymo i osod amcan i fod yn net sero erbyn 2050, wedi'i gefnogi gan ymrwymiad i asesu dichonolrwydd y Gronfa i gyrraedd

net sero 5,10 neu 15 mlynedd ynghynt gyda fframwaith wedi'i ddatblygu i gefnogi uchelgeisiau y Gronfa, gan gwmpasu cyfleoedd, ymgysylltu, a monitro a metrigau. Amlygwyd bod y targed sero net yn cyd-fynd a tharged y Llywodraeth a Russell Investments, ac er mai anodd yw gosod targed heb ystyriaeth sut i gyrraedd ato, ystyriwyd bod modd cydweithio i gyrraedd y targed yn realisitig.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Derbyn bod hi'n anodd gosod targed – cynnig gosod camau / cerrig milltir tuag at 2050 fel bod modd monitro / adrodd ar y camau hynny
- Awgrym y gellid defnyddio camau monitro buddsoddiadau
- Awgrym i ystyried llunio 'banc carbon' fel y gwelir yn y Sector Adeiladu gan osod amcanion i ffocysu'r meddwl - dim ymrwymiad ond amlygu disgwyliadau.
- Doeth fyddai peidio ystyried targed a pheidio ymrwymo i bwysau gan y wasg
- O dderbyn arweiniad a metrigau gan y TCFD haws fydd cymryd camau ymlaen
- Derbyn cydnabyddiaeth am faterion amgylcheddol, ond angen hefyd ystyried llywodraethiant cymdeithasol a chorfforaethol – hawliau dynol, rhyfel, llwgrwobrwyaeth a llygredigaeth – awgrym ymhelaethu ar hyn

Mewn ymateb i sylw am osod cerrig milltir, nodwyd er yn derbyn y byddai cerrig milltir yn cael eu gosod mewn unrhyw gynllun arferol, anodd fyddai gwneud yn y cyd-destun yma oherwydd dibyniaeth ar gyrff eraill. Ategwyd, o ran defnyddio camau buddsoddi, nad oedd ymwybyddiaeth o unrhyw gwmnïau rheoli asedau oedd yn gosod cerrig milltir.

Mewn ymateb i sylw am ystyried agweddau tu hwnt i faterion amgylcheddol, nodwyd bod y ddogfen wedi ei chreu cyn Rhyfel Wcráin a Rwsia ac felly derbyniwyd yr angen i ychwanegu cymal am 'fiduciary duty', yn dilyn ymchwil i agweddau cyfreithiol.

Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) a bod y datganiad ynglŷn â safbwynt y gronfa a buddsoddiadau cysylltiedig â Rwsia wedi ei lunio yn sydyn iawn. Ategwyd bod grŵp o fewn PPC yn ystyried agweddau cymdeithasol a llywodraethiant a thrafodaethau yn treiddio i mewn i ystyriaethau buddsoddi.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â chwmnïau megis Shell, BP a Coca Cola sydd â chysylltiadau gyda Rwsia a bod yr elfen llywodraethiant yn berthnasol i hyn, nodwyd bod Robeco wedi eu comisiynu i ymgysylltu a rheolwyr asedau'r Gronfa i weithredu ar ein rhan ac ystyriwyd hyn yn gam gweithredol cadarnhaol.

Er yn derbyn nifer o'r sylwadau, casglwyd nad oedd angen addasu gormod ar y ddogfen ar hyn o bryd, ar wahân i ychwanegu'r cymal am 'fiduciary duty', ond bydd modd ychwanegu i'r ddogfen fel daw mwy o wybodaeth i law am agweddau cymdeithasol a llywodraethiant.

Derbyniwyd yr wybodaeth

**11. PRISIAD 2022: RHAGDYBIAETHAU ACTIWARAIDD**

Cyflwynwyd adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gronfa yn amlygu'r rhagdybiaethau actiwaraidd a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Pensiynau 17-01-22, fel rhai i'w defnyddio ym mhrisiad 2022. Eglurwyd bod y rhagdybiaethau actiwaraidd sylfaenol yn elfen allweddol o'r strategaeth ariannu ac y dylent geisio adlewyrchu disgwyliadau'r Gronfa i'r dyfodol ynghyd a lefel dymuniad risg. Gyda gwybodaeth gyfredol ac amgylchedd y

Gronfa yn esblygu a’r cydbwysedd rhwng darbodusrwydd a fforddiadwyedd yn amrywio oherwydd dylanwad ffactorau allanol, mae adolygu’r rhagdybiaethau actiwaraidd a fabwysiadwyd gan y Gronfa fel rhan o bob prisiad teirblynyddol yn angenrheidiol ac yn ymarfer da.

Adroddwyd mai pwrpas y prisiad yw adolygu'r strategaeth ariannu gyfredol yng ngoleuni newidiadau i'r amgylchedd economaidd, rheoliadol a chymdeithasol ynghyd a gosod cyfradd cyfrannu ar gyfer pob cyflogwr a delir (yn yr achos hwn) rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2026, pryd bydd cyfraddau'n cael eu hail-asesu ar brisiad 2025; a gwirio'r sefyllfa ariannu gyfredol.

Cyfeiriwyd at y rhagdybiaethau ariannol a’r rhai demograffig gan egluro rhesymeg dros yr hyn a gynigiwyd ar gyfer 2022 ynghyd a’r rhesymau dros unrhyw newid. Ategwyd bod y cyfarfod a gynhaliwyd 17 o Ionawr 2022 gydag Aelodau y Pwyllgor Pensiynau, H Eifion Jones (Cynrychiolydd o’r Bwrdd), y swyddogion a’r actiwari yn manylu ar y rhagdybiaethau, wedi bod yn fuddiol iawn.

Eglurwyd y byddai’r rhagdybiaethau yn cael eu ffurfioli mewn fersiwn wedi'i diweddaru o'r Datganiad Strategaeth Ariannu ym mis Ionawr 2023 (drafft) ac ym mis Mawrth 2023 (fersiwn derfynol), fel rhan o broses brisio 2022.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol:

- Bod cadw balans yn ddoeth – dim eisiau gormod o risg
- Derbyn bod defnyddio ffin darbodusrwydd o 75% yn synhwyrol

Mewn ymateb i gwestiwn am lefelau risg ac a fyddai modd ystyried gosod % isafswm ac uchafswm (o ystyried bod prisiad actiwaraidd teirblynyddol 2019, wedi’i ariannu i lefel o 108%), nodwyd mai anodd fyddai rhagweld beth yw’r sefyllfa, oherwydd bod y lefel ariannu yn ddibynnol ar sawl ffactor ac yn anodd i’w ddarogan. Mewn ymateb i gwestiwn ategol ynglŷn â’r gyfradd ddisgownt, nodwyd bod hyn hefyd yn anodd ei ragweld, ac felly penderfynwyd mabwysiadu trefn sydd yn seiliedig ar risg.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:30pm a daeth i ben am 3:20pm

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Bwrdd Pensiwn |
| **Dyddiad:** | 04/04/2022 |
| **Teitl:** | Adroddiad drafft Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn ar gyfer adroddiad blynyddol y Gronfa |
| **Pwrpas:** | Cynorthwyo'r Cadeirydd i ysgrifennu'r adroddiad blynyddol |

**Cyflwyniad**

Mae'n ofynnol i Gadeirydd y Bwrdd Pensiwn gyflwyno adroddiad blynyddol fel rhan o adroddiad blynyddol y Gronfa Bensiwn ac fel rhan o gyfarfod blynyddol y Gronfa.

Mae'r adroddiad drafft hwn (Gweler Atodiad A) wedi ei baratoi yn fras fel pwynt cychwyn.

**Amserlen**

Mae'n ofynnol bod yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno erbyn: 31/07/2022.

Bydd cyfarfod blynyddol y gronfa yn cymryd yn ystod tymor yr Hydref ac mae croeso i holl aelodau'r Bwrdd fynychu.

**Cynnwys yr adroddiad drafft**

Mae'r adroddiad drafft wedi ei ysgrifennu yn unol â gosodiad adroddiad 2021. Mae nifer o ddatganiadau ffeithiol wedi cael eu gadael heb newid ar gyfer adroddiad 2022 ond mae wedi cael ei ddiweddaru i gymryd ystyriaeth y pynciau a drafodwyd yn ystod y flwyddyn.

**Casgliad**

Gofynnir i aelodau'r Bwrdd i ystyried cynnwys yr adroddiad drafft er mwyn trafod ei gynnwys a chynnig gwelliannau yn y cyfarfod.

Fel nodwyd uchod, mae'n ofynnol i'r Cadeirydd gyflwyno'r adroddiad terfynol i Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi erbyn 31/07/2022.

## Atodiad A

# Adroddiad Blynyddol Bwrdd Pensiwn Gwynedd ar gyfer 2021/22 (y flwyddyn at 31 Mawrth 2022)

### Cefndir / Cyfansoddiad

Cyfansoddwyd y Bwrdd o dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 13 Gorffennaf 2015. Mae'r aelodaeth yn cynnwys tri aelod sydd yn cynrychioli cyflogwyr y cynllun a thri aelod sydd yn cynrychioli aelodau'r cynllun (sef staff sy'n cyfrannu tuag at bensiwn a rhai sydd wedi ymddeol ac yn derbyn pensiwn).

Dros y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, mae'r Bwrdd wedi cwrdd yn rhithiol pedair gwaith. Mae aelodau'r Bwrdd yn cael gwahoddiad fel arsylwyr i gyfarfodydd y Pwyllgor Pensiynau, ac wedi cytuno cymryd y rôl hon yn eu tro er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth yn ogystal â chyfathrebu. Mae'r trefniant hon yn gytbwys gyda Chadeirydd y Pwyllgor Pensiynau rŵan yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd, lle bu'n atebol, gyda swyddogion am lywodraethu a gweinyddu'r Gronfa. Ar adegau, mae'r Bwrdd wedi gofyn i'w farn ac argymhellion gael eu cyflwyno'n swyddogol am ystyriaeth gan y Pwyllgor.

### Swyddogaeth y Bwrdd

Yn unol â'r ddeddfwriaeth, dau brif swyddogaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol yw cynorthwyo'r awdurdod gweinyddol (Cyngor Gwynedd) i:

i. sicrhau llywodraethu a gweinyddiaeth effeithiol ac effeithlon o'r C.P.Ll.L., a
ii. sicrhau cydymffurfiad gyda'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol.

Felly, corff monitro, adolygu a chynorthwyo yw'r Bwrdd, nid corff sydd yn rheoli a gwneud penderfyniadau.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu o dan Gylch Gorchwyl a gytunwyd gan Cyngor Gwynedd (mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn ar y 5$^{ed}$ o Fawrth 2015).

Mae'n derbyn cefnogaeth gan Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu'r Cyngor ac mae adroddiadau yn cael eu paratoi a'u cyflwyno gan swyddogion yn cynnwys y Pennaeth Cyllid, Rheolwr Buddsoddi a Rheolwr Pensiynau y Gronfa.

### Gwaith y Bwrdd

Unwaith eto mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn brysur i staff uwch yr Awdurdod Gweinyddol gyda'r argyfwng Covid-19 yn golygu bod staff y Gronfa yn gorfod gweithio o adref, ac addasu i ffordd newydd o weithio. Felly, roedd aelodau'r Bwrdd yn ymwybodol o'r angen i flaenoriaethu ceisiadau i swyddogion baratoi adroddiadau ar gyfer y Bwrdd.

**Presenoldeb**

| | 19/04/2021 | 12/07/2021 | 6/12/2021 | 07/03/2022 |
|---|---|---|---|---|
| **Cynghorydd Aled Evans** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **H. Eifion Jones** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Osian Richards** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Huw Trainor** | ✓ | ✓ | | |
| **Sharon Warnes** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Sioned Evans Parry** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

**Cynllun Gwaith**

Yn unol â'r cynllun gwaith a gytunwyd yn y flwyddyn flaenorol, rhoddwyd sylw i adroddiadau ar y materion canlynol:

- Datganiad Polisi Llywodraethu
- Diogelwch Seiber
- Cyllideb y Gronfa
- Amcanion Ymgynghorwyr Buddsoddi
- Polisi Buddsoddi Cyfrifol
- Perfformiad buddsoddi'r Gronfa Bensiwn
- Gweinyddiaeth Pensiwn
- Partneriaeth Pensiwn Cymru
- Rhagdybiaethau Actiwaraidd y Prisiad
- Cyfrifon y Gronfa
- Cynllun Hyfforddiant
- Polisi Sgiliau a Gwybodaeth
- Strategaeth Gweinyddu Pensiynau

Yn ystod trafodaethau, rhoddwyd mewnbwn a chyflwynwyd nifer o sylwadau gan aelodau'r Bwrdd sydd wedi cynorthwyo swyddogion yr awdurdod gweinyddol i gwblhau eu gwaith.

Hefyd, mynychodd aelodau'r Bwrdd gyfarfod blynyddol rhithiol y Gronfa ym mis Tachwedd 2021, a nodwyd y bu perfformiad hynod foddhaol, o'i gymharu â chronfeydd C.P.Ll.L. eraill.

Mae'r cynllun gwaith ar gyfer 2022/23 yn cynnwys:

- Diweddariad cyffredinol ar Weinyddu Pensiynau
- Datganiad cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022
- Diweddariad ar brosiect McCloud
- Diweddariad ar Bartneriaeth Pensiwn Cymru
- Cofrestr Risg
- Diweddariad ar y Prisiad Actiwaraidd
- Diweddariad perfformiad buddsoddi Cronfa Bensiwn Gwynedd
- Datganiad o Gyfrifon y Gronfa Bensiwn
- Dangosfwrdd Pensiwn
- Cyllideb 2023/24
- Cynllun Busnes 2023/24
- Cynllun Hyfforddi 2023/24

**Hyfforddiant**

Yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd cafodd pob aelod o'r Bwrdd fanylion am y C.P.Ll.L. a'i weinyddiaeth yng Ngwynedd mewn cyflwyniadau amrywiol gan Cyfarwyddwr y Gronfa, Rheolwr Buddsoddi a Rheolwr Pensiynau.

Mae aelodau'r Bwrdd hefyd wedi mynychu nifer o gyfarfodydd a chyflwyniadau rhithiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

Angen gwybod gan aelodau'r bwrdd pa sesiynau maent wedi mynychu ar gyfer y rhan yma

**Diolch**

Mae'r Cadeirydd yn dymuno diolch i'w gyd-aelodau ar y Bwrdd, sydd wedi gwirfoddoli eu hamser i'r swyddogaethau, ac i'r swyddogion perthnasol am eu cefnogaeth.

**Cynghorydd Aled Evans**
**Cadeirydd**

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Bwrdd Pensiwn |
| **Dyddiad:** | 04/04/2022 |
| **Teitl:** | POLISI CYNRYCHIOLAETH |
| **Pwrpas:** | Derbyn adborth gan y Bwrdd ar y Polisi Cynrychiolaeth newydd |
| **Awdur:** | Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau |

## 1. Cyflwyniad

Mewn ymateb i'r Adolygiad Llywodraethu Da mae'r gronfa wedi bod yn adolygu ei threfniadau llywodraethu, gan gyfeirio at yr argymhellion a nodir yn yr adolygiad.

O ran cynrychiolaeth, yr argymhelliad o'r adroddiad Llywodraethu Da oedd:

"Rhaid i bob cronfa gynhyrchu a chyhoeddi polisi ar gynrychiolaeth aelodau'r cynllun a chyflogwyr sydd ddim yn rhan o'r awdurdod gweinyddu ar ei Phwyllgorau, gan egluro ei hymagwedd at hawliau pleidleisio i bob parti."

## 2. Cefndir

Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu disgresiwn eang i awdurdodau lleol dros benodiadau a dirprwyaethau Pwyllgorau ac felly mae mater cynrychiolaeth ar y Pwyllgor Pensiynau yn parhau i fod yn fater i ddemocratiaeth leol.

Mae gan lawer o Bwyllgorau Pensiynau bellach gynrychiolwyr cyflogwyr ac aelodau'r cynllun. Fodd bynnag, mae arfer mewn perthynas ag hawliau bleidleisio yn amrywio.

Er y dylai awdurdodau gweinyddol gadw pleidlais fwyafrifol ar bwyllgorau gwneud penderfyniadau er mwyn adlewyrchu eu dyletswyddau statudol, mae arfer gorau yn awgrymu bod rhyw fath o gynrychiolaeth ehangach gan gyflogwyr ac aelodau cynllun ar y Pwyllgor Pensiynau yn ddymunol.

Mae'r polisi newydd hwn yn cadarnhau safbwynt y Gronfa mewn perthynas â phenodiadau a dirprwyo'r Pwyllgor yn ogystal â chyfansoddiad y Bwrdd Pensiwn.

### 3. Polisi Gwynedd

Mae copi o Strategaeth Arfaethedig Cronfa Bensiwn Gwynedd i'w weld yn **atodiad A.**

Gwerthfawrogwn adborth ar y polisi gan y Bwrdd cyn i'r polisi gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Pensiynau i'w gymeradwyo.

# Polisi Cynrychiolaeth

## Cefndir

Yn unol ag arfer gorau, mae'r Gronfa wedi sefydlu polisi ar gynrychiolaeth aelodau'r cynllun a chyflogwyr nad ydynt yn awdurdodau gweinyddol ar ei Chyrff Llywodraethol (Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiynau Lleol) gan fanylu ar ei hymagwedd at gynrychiolaeth a hawliau pleidleisio ar gyfer pob parti.

## Pwyllgor Pensiynau

**Rôl y Pwyllgor Pensiynau**

Mae gan Bwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd gyfrifoldeb dirprwyedig i ymgymryd â rôl y Rheolwr Cynllun yn unol ag Adran 4 o Ddeddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am:


- Arfer yr holl swyddogaethau sy'n ofynnol fel Awdurdod Gweinyddu ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013.
- Cadw at yr egwyddorion sy'n ofynnol gan y Canllawiau Statudol.
- Cadw at God Ymarfer y Rheoleiddwyr Pensiynau (tPR).
- Cyflawni'r dyletswyddau a nodir yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor Pensiynau fel y manylir arnynt yng Nghyfansoddiad yr Awdurdod Gweinyddol.

Mae aelodau'r Pwyllgor Pensiynau yn atebol am holl weithgareddau'r Gronfa ac yn gyfrifol am sicrhau bod y Gronfa'n cael ei rheoli er budd gorau ei holl gyflogwyr, aelodau a buddiolwyr.

**Aelodaeth y Pwyllgor**

Mae aelodaeth y Pwyllgor Pensiynau yn cynnwys:

- Saith aelod etholedig Cyngor Gwynedd sydd wedi eu henwebu gan y Cyngor Llawn
- Un aelod etholedig o bob un o'r ddau awdurdod unedol arall o fewn y Gronfa (Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy).




Mae aelodau etholedig yn eistedd fel aelodau llawn o'r Pwyllgor gyda hawliau dadlau a phleidleisio ar bob mater a gyflwynir.

Ar hyn o bryd nid oes cynrychiolaeth o blith y cyrff a dderbyniwyd nac aelodau'r cynllun er mwyn cadw pwyllgor cymharol fach ar gyfer adolygu perfformiad y gronfa mewn modd effeithiol. Gan fod yr addewid pensiwn wedi'i ddiffinio gan ddeddfwriaeth ar gyfer aelodau'r cynllun, nid yw gweithredoedd y Pwyllgor wedi'u hystyried hyd yma i amharu ar eu buddiannau ac felly ni chafwyd unrhyw gynrychiolaeth. Rhoddir cyfle i bob cyflogwr ddylanwadu ar benderfyniadau trwy gyfres o gyfarfodydd anffurfiol â chyflogwyr.

**Cworwm**

Mae'r cworwm ar gyfer y Pwyllgor Pensiynau yn gofyn bod o leiaf traean o'r nifer o aelodau pleidleisio ar y pwyllgor yn bresennol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y pwyllgor yn parhau i fod yn wleidyddol gytbwys gan ymdrechu i'r eithaf i sicrhau bod nifer digonol yn bresennol ym mhob cyfarfod i sicrhau cynrychiolaeth briodol.

# Bwrdd Pensiwn

### Rôl y Bwrdd Pensiwn

Rôl y Bwrdd Pensiwn lleol fel y'i diffinnir gan adrannau 5(1) a (2) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013, yw:

- Cynorthwyo Awdurdod Gweinyddol Gwynedd fel Rheolwr Cynllun -
  - i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ("CPLlL") ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r CPLlL.
  - i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion a osodwyd mewn perthynas â'r CPLlL gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.
  - mewn materion eraill y gall y rheoliadau CPLlL eu pennu.

- Sicrhau llywodraethu a gweinyddiaeth effeithiol ac effeithlon o'r CPLlL ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd.


Bydd y Bwrdd Pensiwn yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n effeithiol ac effeithlon â'r cod ymarfer ar lywodraethu a gweinyddu cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Bydd y Bwrdd Pensiwn hefyd yn helpu i sicrhau bod Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei rheoli a'i weinyddu'n effeithiol ac effeithlon ac yn cydymffurfio â'r cod ymarfer ar lywodraethu a gweinyddu cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Bydd Rheoliadau'r Cynllun a Rheolwr y Cynllun yn pennu cylch gorchwyl y Bwrdd.

Mae'r Bwrdd wedi'i gyfansoddi o dan Ddeddf Pensiwn y Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ( Diwygio ) ( Llywodraethu ) 2014 ac felly nid yw'n ddarostyngedig i ofynion Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw gylch gwaith fel corff gwneud penderfyniadau, ond gall wneud argymhellion addas.

### Aelodaeth y Bwrdd

Mae angen cynrychiolaeth gyfartal rhwng cyflogwyr y cynllun ac aelodau'r cynllun.
Yn ddarostyngedig i Reoliad 107(5) o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 mae'r Bwrdd Pensiwn yn cynnwys 6 aelod ac mae wedi'i gyfansoddi fel a ganlyn:

- 3 chynrychiolydd cyflogwr (un ohonynt yn cynrychioli'r Awdurdod Gweinyddol);
- 3 chynrychiolydd o aelodau'r cynllun;




Cyn belled â’i bod yn ymarferol rhesymol, bydd ymgais i geisio sicrhau fod y Bwrdd yn cynrychioli ystod grwpiau’r cyflogwr a’r aelodau o fewn y gronfa.

Gofynnir i gyflogwyr a gweithwyr enwebu cynrychiolwyr i’r Bwrdd Pensiwn. Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn trefnu cyfarfod o’r panel i ddethol aelodau’r Bwrdd Pensiwn. Bydd y Panel Penodi yn cynnwys y Swyddog Adran 151, y Swyddog Monitro a’r Aelod Cabinet dros Gyllid. Detholir yr aelodau Bwrdd unigol ar gyfer pob categori ar sail cydbwysedd cyffredinol y profiad a’r sgiliau yn y grŵp.

Pedair blynedd yw cyfnod arferol penodiad i'r bwrdd ac ni fydd cyfyngiad ar y nifer o weithiau y gellir ailbenodi aelod o'r Bwrdd.

Lle penodir Aelod o'r Bwrdd yn rhinwedd ei swydd fel cynrychiolydd cyflogwr neu aelod yna yn syth ar ôl i'r Aelod Bwrdd roi'r gorau i gynrychioli cyflogwyr neu aelodau yn y swyddogaeth honno, caiff ei aelodaeth o'r Bwrdd ei therfynu ar unwaith.

Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Pensiwn o blith aelodau’r Bwrdd. Caiff y swyddogaethau eu rhannu, gydag un ohonynt yn cynrychioli’r cyflogwr ac un yn cynrychioli’r aelodau, gan eu cyfnewid bob dwy flynedd.

Rôl y Cadeirydd fydd sicrhau bod holl aelodau’r Bwrdd yn dangos parch dyledus tuag at y broses, fod pob barn yn cael ei chlywed a’i hystyried yn llawn, ac i benderfynu pryd y bydd consensws wedi’i gyrraedd.

Dylai pob aelod o’r Bwrdd geisio mynychu pob cyfarfod o'r bwrdd yn ystod y flwyddyn. Ni chaniateir eilyddion.

Petai aelod o’r bwrdd yn absennol yn gyson o gyfarfodydd y Bwrdd neu hyfforddiant, bydd eu haelodaeth yn cael ei adolygu gan aelodau eraill y Bwrdd ar y cyd â Rheolwr y Cynllun, a gall Rheolwr y Cynllun benderfynu diddymu eu haelodaeth. Mae gan Reolwr y Cynllun ddisgresiwn i ddiddymu aelodaeth unrhyw aelod o'r Bwrdd os yw'n credu ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol i wneud hynny.

Gan nad yw’n gorff sy’n gwneud penderfyniadau, nid oes gan y Bwrdd yr hawl i sefydlu gweithgorau nac is-grwpiau.

**Cworwm**

Bydd cworwm mewn cyfarfod o'r Bwrdd os yw 3 Aelod o'r Bwrdd yn bresennol, gan gynnwys y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd a rhaid i'r cworwm gynnwys o leiaf un cynrychiolydd cyflogwr ac un cynrychiolydd aelodau.

Bydd gan bob aelod un bleidlais, ond yn ôl yr angen bydd pleidlais fwrw gan y Cadeirydd.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Pensiwn** |
| **Dyddiad:** | **04/04/2022** |
| **Teitl:** | **Y RHAGLEN WAITH DIWYGIEDIG** |
| **Pwrpas:** | **Llunio'r Rhaglen Waith am y flwyddyn 2022/23** |
| **Awdur:** | **Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau** |

## 1. Cyflwyniad

Yn dilyn gosod y rhaglen waith olaf ym mis Chwefror 2021 mae angen nawr awgrymiadau ar gyfer eitemau i'w cynnwys ar gyfer y cynllun gwaith 2022/2023.

## 2. Rhaglen Waith drafft

Mae'r rhaglen waith isod wedi'i ddrafftio ac mae'n cynnwys y materion a nodwyd yn dilyn ystyriaeth gan y Bwrdd mewn cyfarfodydd blaenorol a materion sy'n codi.

**RHAGLEN WAITH 2022/23**

**18 Gorffennaf 2022**

- Diweddariad cyffredinol ar Weinyddu Pensiynau gan gynnwys cwynion am Weinyddu Pensiynau 2021/22.
- Adroddiad y Bwrdd ar gyfer Adroddiad Blynyddol y Gronfa Bensiwn 2021/22
- Datganiad cyfrifon drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022
- Diweddariad ar brosiect McCloud.
- Diweddariad ar Bartneriaeth Pensiwn Cymru.
- Cofrestr Risg.
- Materion yn codi o'r Pwyllgor Pensiynau (os yn berthnasol).
- Adolygiad o gyfarfodydd SAB (os yn berthnasol).
- Achosion o dor cyfraith (os yn berthnasol).
- Adrodd am newidiadau i'r gofrestr risg (os yn berthnasol).

**3 Hydref 2022**

- Diweddariad ar y Prisiad Actiwaraidd.
- Diweddariad perfformiad buddsoddi Cronfa Bensiwn Gwynedd.
- Diweddariad ar Bartneriaeth Pensiwn Cymru.
- Datganiad o Gyfrifon y Gronfa Bensiwn.
- Materion yn codi o'r Pwyllgor Pensiynau.
- Adolygiad o gyfarfodydd SAB (os yn berthnasol).
- Achosion o dor cyfraith (os yn berthnasol).
- Adrodd am newidiadau i'r gofrestr risg (os yn berthnasol).

**15 Rhagfyr 2022**

- Diweddariad cyffredinol ar Weinyddu Pensiynau.
- Dangosfwrdd Pensiwn.
- Diweddariad ar Brosiect McCloud.
- Diweddariad ar Bartneriaeth Pensiwn Cymru.
- Cyfrifon Terfynol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022.
- Materion yn codi o'r Pwyllgor Pensiynau a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (os yn berthnasol).
- Adolygiad o gyfarfodydd SAB (os yn berthnasol).
- Achosion o dor cyfraith (os yn berthnasol).
- Adrodd am newidiadau i'r gofrestr risg (os yn berthnasol).

**3 Mawrth 2023**

- Cyllideb 2023/24.
- Cynllun Busnes 2023/24.
- Cynllun Hyfforddi 2023/24.
- Diweddariad ar Bartneriaeth Pensiwn Cymru.
- Materion yn codi o'r Pwyllgor Pensiynau (os yn berthnasol).
- Adolygiad o gyfarfodydd SAB (os yn berthnasol).
- Achosion o dor cyfraith (os yn berthnasol).
- Adrodd am newidiadau i'r gofrestr risg (os yn berthnasol).

Gellir ychwanegu materion sy'n codi yn ystod y flwyddyn i'r rhaglen fel bo'r angen e.e. adroddiadau archwilio mewnol neu newidiadau i rheoliadau. Diau y bydd syniadau gan aelodau sydd wedi mynychu hyfforddiant a digwyddiadau perthnasol.

**3. Argymhelliad**

Gofynnir i aelodau'r Bwrdd ystyried y rhaglen uchod ac awgrymu eitemau ychwanegol neu newidiadau.